

JACOB, HENRY THOMAS (1864 - 1957), gweinidog (A), darlithydd, llenor a bardd

Enw: Henry Thomas Jacob
Dyddiad geni: 1864
Dyddiad marw: 1957
Priod: Margaret Ellen Jacob (née Evans)
Rhiant: Ann Jacob (née Harries)
Rhiant: Thomas Jacob
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog (A), darlithydd, llenor a bardd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: Gerallt Jones

Ganwyd yn Nhreforci, Cwm Rhondda, Morgannwg, 14 Rhagfyr 1864, yn ail o ddeg o blant Thomas Jacob y gof ac Ann (ganwyd Harries) ei wraig. Codwyd ef i bregethu yn eglwys Bethania, ac aeth yn 1885 i ysgol *Walcyn Wyn* yn Rhydaman i baratoi at goleg a chael mynd i Lancashire College, Manceinion. Priododd ar 20 Awst 1890 â Margaret Ellen Evans o Landeilo, a chawsant bump o blant, dwy ferch a thri mab. Bu'n weinidog ym Methel, Trecynon, Aberdâr, 1889-98, Peniel ger Caerfyrddin, 1898-1912, a'r Tabernacl, Abergwaun, 1912-34. Yr oedd yn bregethwr efengylaidd ei duedd, a'i ffraethineb ddarluniadol yn hoelio sylw ac yn grymuso'i genadwri. Bu'n barddoni cryn dipyn yn ei gyfnod cynnar, ac yn ysbeidiol wedyn drwy'r blynyddoedd. Yr oedd mewn cymaint bri fel darlithydd ag oedd fel pregethwr; yr oedd yn gampwr ar bortreadu hen gymeriadau, ac enynnai ddiddordeb ac edmygedd drwy'r wlad oll. Ymhlith ei ddarlithiau yr oedd 'Stori nhad', 'Yr hen goliar', 'Yr hen godwr canu', 'Hen gymeriadau', 'General Booth', 'Gwlad y Dyn Du'. Ei ddiddordeb yng ngwaith cenhadol yr eglwys, a'i wasanaeth iddo, oedd yn gyfrifol am y ddau lyfr hyn a ysgrifennodd *Dilyn y wawr*, *Cofiant Hopcyn Rees*. Cyhoeddodd hefyd: *Caneuon y bwthyn*, *Hanes eglwys y Tabernacl, Abergwaun* (1945), dau lyfryn o gatecismau ar gân i blant, ac *Atgofion H.T. Jacob* (1960). Bu ar daith yn Ne Affrica yn 1922-23, a chyfarfod y pennaeth Khama, a phregethu o'i flaen. Etholwyd ef yn is-gadeirydd Undeb yr Annibynwyr yn 1931 ond bu rhaid iddo gychwyn blwyddyn ei gadeiryddiaeth yn Ionawr 1932 i orffen tymor *Peter Price*. Bu farw ei briod yn 1950, ac yntau ar 18 Mai 1957, a chladdwyd ef ym mynwent y Tabernacl, Abergwaun.

Awduron

Y Parchedig Gerallt Jones, (1907 - 1984)

Diwygiwyd gan y tÃ@m golygyddol, 2024

Ffynonellau

Atgofion H. T. Jacob (Abertawe 1960) (1960)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 41519285

Wikidata: Q20804712

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jones, G., (1997). JACOB, HENRY THOMAS (1864 - 1957), gweinidog (A), darlithydd, llenor a bardd. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-JACO-THO-1864>

Copy

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government